

# NEWYDDLEN SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU

# INSTITUTE FOR THE STUDY OF WELSH ESTATES NEWSLETTER



## Croeso!

## Welcome!

Helo bawb, a chroeso i'n cylchlythyr ar-lein newydd cyntaf.  Rydym wedi creu'r cylchlythyr i roi'r newyddion diweddaraf i chi – ein cyfeillion, ein cefnogwyr a'n partneriaid – am straeon

**Hello everyone and welcome to our first new online newsletter.  We've created the newsletter to keep you – our friends, supporters and partners – up to date with**

llwyddiant, projectau ymchwil, cyhoeddiadau, digwyddiadau sydd i ddod a diweddariadau o fydoedd ehangach archifau, treftadaeth, tirwedd, materion gwledig a hanes Cymru.  Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen!

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru'n ganolfan ymchwil ym Mhrifysgol Bangor sy'n bodoli i hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach o hanes, diwylliannau a thirweddau Cymru ac ymgysylltu â nhw – yn enwedig yr agweddau hynny ar fywyd Cymru sy'n gysylltiedig â gweithrediad ystadau tir a thai gwledig hanesyddol, neu sydd wedi'u dylanwadu ganddynt.

Ers sefydlu yn 2013, rydym wedi ceisio creu rôl gadarnhaol a neilltuol ym mywyd diwylliannol a deallusol Cymru – gan gysylltu ymchwil academaidd ag archifau, treftadaeth, lleoedd a chymunedau ledled Cymru, wrth hefyd weithio'n agos gyda phartneriaid rhyngwladol.  Mae ein hymchwil a'n projectau bellach yn ymestyn dros ystod enfawr o faterion, o amaethyddiaeth a phensaernïaeth i lyfrgelloedd a thirwedd.  Rydym yn arbennig o falch o gyfraniad ein carfan wych o ymchwilwyr PhD, sy'n gwneud ymchwil mor ddiddorol ar brojectau ar hyd a lled Cymru.

Mae ein gwefan newydd bellach yn rhoi darlun cynhwysfawr o'n hymchwil a'n gweithgareddau, gan gynnwys straeon newyddion rheolaidd, postiadau blog, proffiliau projectau ac ymchwilwyr, ac adnoddau y gobeithiwn y byddant o ddiddordeb a defnydd i chi.  Mae llawer o'r erthyglau yn y cylchlythyr hwn yn cysylltu â straeon hirach ac adrannau ar y wefan.  Rydym yn eich annog i archwilio'r wefan yn fanwl – a chofiwch rannu eich barn gyda ni.

Yn y rhifyn hwn, cewch wybod am ein llwyddiannau PhD diweddar; cyhoeddiadau newydd ar Derfysgoedd Beca a bonedd y Gymru fodern gynnar; arddangosfa sy'n canolbwyntio ar newid tirwedd yn Eryri; project catalogio archifau gwirfoddol yn Archifau Prifysgol Bangor; newyddion gan ein partneriaid; a manylion am ddigwyddiadau sydd i ddod.

Byddem yn croesawu eich adborth, yn edrych ymlaen at glywed eich syniadau ac awgrymiadau, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn ystyried cefnogi ein gwaith.

Gan ddymuno'n dda i chi ar gyfer tymor hydref 2024.

Cofion cynnes,

**recent news, success stories, research projects, publications, forthcoming events and updates from the wider worlds of Welsh history, archives, heritage, landscape and rural affairs.  We hope that you enjoy it!**

**The Institute for the Study of Welsh Estates (ISWE) is a research centre, based at Bangor University, which exists to promote a deeper understanding of and engagement with the histories, cultures and landscapes of Wales – especially those many aspects of Welsh life connected with or influenced by the operation of historic landed estates and country houses.**

**Since our establishment in 2013, we've aimed to carve out a positive and distinctive role in the cultural and intellectual life of Wales – connecting academic research with archives, heritage, places and communities across Wales, whilst also working closely with international partners.  Our research and projects now extend over a huge range of issues, from agriculture and architecture to libraries and landscape.  We're particularly proud of the contribution of our brilliant cohort of PhD researchers, who are pursuing such fascinating research on projects across the length and breadth of Wales.**

**Our** newly designed website **now provides a comprehensive picture of our research and activities, featuring regular news stories, blog posts, researcher and project profiles, and resources which we hope you'll find interesting and useful.  Many of the features in this newsletter link to longer stories and sections on the website.  We encourage you explore the site in detail – and please let us know what you think.**

**In this edition of the newsletter, you'll find out about our recent PhD successes; new publications on the Rebecca Riots and gentry of early modern Wales; an exhibition focusing on landscape change in Eryri; a volunteer archives cataloguing project at Bangor University Archives; news from our partners; and details of our forthcoming events.**

**We'd welcome your feedback, look forward to hearing from you with ideas and suggestions, and hope that you'll consider supporting our work.**

**Wishing you all the best for autumn 2024.**

Dr Shaun Evans
Cyfarwyddwr
iswe@bangor.ac.uk

**Cofion cynnes,**

**Dr Shaun Evans**
**Director**
iswe@bangor.ac.uk




## Llwyddiant PhD i Mary a Meinir!

Roeddem yn falch iawn o ddathlu seremonïau graddio dau ymchwilydd doethurol yn yr haf. Mae Dr Mary Oldham wedi cwblhau traethawd ymchwil gwych ar hanes ystâd Gregynog yn Sir Drefaldwyn rhwng c.1750-1900. Gallwch ddarllen mwy am stori Mary, ei hymchwil, ei hangerdd dros Regynog ac ymchwil doethurol yma.

Roedd PhD Dr Meinir Moncrieffe yn canolbwyntio ar fywyd a hunaniaeth Syr John Wynn o Wydir (1553-1627), yn archwilio sut aeth yr uchelwr enwog hwn o'r cyfnod modern cynnar ati i lunio ei hunanddelwedd ar ôl y Ddeddf Uno. Gallwch ddarganfod mwy am Meinir, ei hymchwil a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol yma.

*Llongyfarchiadau enfawr i Meinir a Mary!*

## PhD Success for Mary and Meinir!

**This summer we were absolutely delighted to celebrate the graduations of two of our doctoral researchers. Dr Mary Oldham has completed a brilliant thesis on the history of the Gregynog estate in Montgomeryshire between c.1750-1900. You can read more about Mary's story, her research, passion for Gregynog and doctoral research** here**.**

**Dr Meinir Moncrieffe's PhD focused on the life and identity of Sir John Wynn of Gwydir (1553-1627), exploring how this infamous early modern *uchelwr* shaped his self-image in the post-Act of Union period. You can find out about Meinir, her research and future plans** here.

***Llongyfarchiadau enfawr Meinir a Mary!***



## Ein Projectau Doethurol

Ar hyn o bryd, mae gennym ddeg project ymchwil doethurol arall yn gysylltiedig â Sefydliad ymchwilio Ystadau Cymru, gan gynnwys projectau sy'n archwilio merched mewn amaethyddiaeth yng Nghymru, setliadau ucheldirol diffaith y Carneddau, coffáu Rhyfeloedd Napoleon yng Nghymru, datblygiad pensaernïol Sain Ffagan, gyrfa wleidyddol T.E. Ellis a llawer, llawer mwy.  Mae mwy o wybodaeth am y projectau hyn, a'r wybodaeth ddiweddaraf am eu datblygiad ar gael yma.

## Our Doctoral Projects

**We currently have another ten doctoral research projects attached to the Institute for the Study of Welsh Estates, exploring women in Welsh agriculture, deserted upland settlements of the Carneddau, memorialisation of the Napoleonic Wars in Wales, architectural development of St. Fagans, political career of T. E. Ellis and much, much more.  You can find out about these projects and keep up to date with their development** here




## Ar gyfer eich Llyfrgell

## For your Library

Roedd yn bleser gennym gynnal digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor ym mis Mai i ddathlu cyhoeddi llyfr newydd Dr Lowri Ann Rees, *The Middleman at Middleton Hall:* The Letters of Thomas Herbert Cooke, 1841-1847, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Gofnodion De Cymru. Mae'r llyfr yn cynnwys trawsgrifiadau o ddwsinau o lythyrau a ysgrifennwyd gan Cooke yn ystod ei asiantaeth ar ystad Middelton Hall yn Sir Gaerfyrddin, gan ddatgelu mewnwelediadau hynod ddiddorol i effaith Terfysgoedd Beca a rôl yr asiant tir yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Gallwch ddarllen mwy am y llyfr a'r digwyddiad lansio yma. Mae copïau ar gael i'w prynu gan Gymdeithas Gofnodion De Cymru.

Ein project PhD cyflawn cyntaf, a ariannwyd gan Ystâd Rhug, oedd astudiaeth Dr Sadie Jarrett o deulu Salesbury, Rhug a Bachymbyd, yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Rydym mor falch o weld bod Sadie wedi cyhoeddi canfyddiadau allweddol ei hymchwil yn *Gentility in Early Modern Wales: The Salesbury Family, 1450-1720*. Mae'r llyfr ar gael i'w brynu a'i lawrlwytho (Mynediad Agored) trwy Wasg Prifysgol Cymru.

Mae ein cyfeillion yn Crickhowell District Archive Centre wedi cyhoeddi *The Great Houses of Crickhowell* yn ddiweddar, sy'n cynnwys hanes pump o ystadau amlycaf Sir Frycheiniog: Cwrt y Gollen, Dan y Parc, Glanwysg, Gwernvale a Pharc Llangatwg. Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am y llyfr yn ein cynhadledd undydd ym Mhenpont (gwybodaeth isod). Mae'r llyfr ar gael i'w brynu o Crickhowell District Archive Centre.

Llongyfarchiadau mawr i Dr Mary Chadwick ar gyhoeddi'r argraffiad modern cyntaf o nofel 1794 Anna Maria Bennett, *Ellen, Countess of Castle Howel*. Wedi'i gyhoeddi gan Honno fel rhan o'u Cyfres Clasuron Merched Cymru, mae'r llyfr ar gael i'w brynu yma.

Mae llyfryddiaeth lawn o gyhoeddiadau gan gydweithwyr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru bellach ar gael i'w gweld yma.

**In May we were delighted to host an event at Bangor University to celebrate the publication of Dr Lowri Ann Rees's new book, *The Middleman at Middleton Hall: The Letters of Thomas Herbert Cooke, 1841-1847*, published by the South Wales Record Society. The book includes transcripts of dozens of letters written by Cooke during his agency of the Middelton Hall estate in Carmarthenshire, revealing fascinating insights into the impact of the Rebecca Riots and the role of the land agent in nineteenth-century Wales. You can read more about the book and launch event** here**. Copies are available to purchase from the** South Wales Record Society**.**

**Our first completed PhD project, funded by the Rhug Estate, was Dr Sadie Jarrett's study of the Salesbury family of Rhug and Bachymbyd during the sixteenth and seventeenth centuries. We are so pleased to see that Sadie has published the key findings of her research in *Gentility in Early Modern Wales: The Salesbury Family, 1450-1720*. The book is available to purchase and download (Open Access) from the** University of Wales Press**.**

**Our friends at the Crickhowell District Archive Centre have recently published *The Great Houses of Crickhowell*, which features histories of five of the most prominent estates in Breconshire: Cwrt y Gollen, Dan y Parc, Glanusk, Gwernvale and Llangattock Park. We're looking forward to finding out more about the book at our forthcoming day-conference at Penpont (information below). The book is available to purchase from** Crickhowell District Archive Centre**.**

**Huge congratulations to Dr Mary Chadwick on the publication of the first modern edition of Anna Maria Bennett's 1794 novel, *Ellen, Countess of Castle Howel*. Published by Honno as part of their Welsh Women's Classics Series, the book is available to purchase** here**.**

**A full bibliography of publications by ISWE colleagues is now available to view** here.

## Dilynwch ni ar y Cyfryngau Cymdeithasol

I weld postiadau rheolaidd ar hanes, archifau a phlastai Cymru, dilynwch ni ar Facebook, Instagram ac X @YstadauCymru.

## Follow us on Social Media

**For regular posts on Welsh history, archives and country houses, follow us on Facebook, Instagram and X @YstadauCymru.**



## Arddangosfa yn Ymchwilio i Newid Tirwedd yn Eryri

Diolch o galon i bawb a ddaeth i Pontio ym mis Awst i archwilio arddangosfa wych Alex Ioannou, Newid Eryri I Changing Eryri.  Mae Alex yn un o'n hymchwilwyr doethurol yn Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, yn archwilio i ganfyddiadau o newid tirwedd.  Mae ardal ei astudiaeth achos yn cynnwys hen dir ystâd Penrhyn yn Nyffryn Ogwen.  Roedd yr arddangosfa'n cynnwys llawer o gofnodion o Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor, y mae Alex wedi bod yn eu dadansoddi i ddeall hanes trawsnewid tirwedd yr ardal.  Nod ei broject yw gwneud defnydd o'r hanes hwn o dirwedd, a gweithio'n agos gyda chymunedau lleol, i lywio heriau cyfoes megis yr amgylchedd, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

Gallwch ddarganfod mwy am arddangosfa Alex yma gydag adroddiad gwych o'r digwyddiad clo

## Exhibition Probes Eryri Landscape Change

**A huge thanks to everyone who came to Pontio in August to explore Alex Ioannou's fantastic exhibition, Newid Eryri I Changing Eryri.  Alex is one of our doctoral researchers at ISWE, exploring perceptions of landscape change.  His case study area includes former Penrhyn estate land in Dyffryn Ogwen.  The exhibition featured many of the records from Bangor University Archives and Special Collections that Alex has been analysing to understand the history of landscape transformation in the area.  His project is interested in making use of this history of landscape, and working closely with local communities, to inform contemporary challenges about environment, biodiversity and sustainability.**

**You can find out more about Alex's exhibition**

yma.

*Llongyfarchiadau Alex!*

**here with a write-up of the fantastic closing event here.**

***Llongyfarchiadau Alex!***




## Catalogio Papurau'r Fonesig Augusta Mostyn

Yn 2019 cytunodd yr Arglwydd Mostyn yn garedig i drosglwyddo dwy gist o ohebiaeth, cyfrifon a phapurau'n ymwneud â'r Fonesig Augusta Mostyn (1830-1912), o Neuadd Mostyn yn Sir y Fflint i Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor. Dros gyfnod o bedair blynedd, aeth Dr Dinah Evans (cyn-ddarlithydd mewn Hanes ym Mhrifysgol Bangor) ati i wirfoddoli gyda'r adran Archifau a Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru i ymchwilio, trefnu a chatalogio'r tri metr llinol o bapurau, dan arweiniad Elen Wyn Simpson, Archifydd y Brifysgol.

Roedd yn bleser cynnal digwyddiad arbennig ym mis Rhagfyr, ar y cyd ag wythnos flynyddol 'Archwiliwch Eich Archifau', i ddathlu cyflawniad Dinah. Ers hynny, mae hi wedi cynhyrchu llyfryn bach yn amlinellu cofiant i'r Fonesig Augusta ynghyd â mewnwelediadau o'r llythyrau. Gallwch ddysgu mwy am y project yma. Rydym wrth ein bodd fod yr Arglwydd Mostyn wedi cytuno i roi benthyg y llyfrau'n hirdymor i Brifysgol Bangor fel sail i ymchwil yn y dyfodol.

## Cataloguing the Papers of Lady Augusta Mostyn

**In 2019 Lord Mostyn kindly agreed to transfer two chests of correspondence, accounts and papers relating to Lady Augusta Mostyn (1830-1912), from Mostyn Hall in Flintshire to Bangor University Archives and Special Collections. Over a period of four years, Dr Dinah Evans (a former Lecturer in History at Bangor University) volunteered with the Archives and ISWE to research, arrange and catalogue the three linear metres of papers, with guidance from Elen Wyn Simpson, University Archivist.**

**In December we were delighted to hold a special event, in association with the annual 'Explore Your Archives' week, to celebrate Dinah's achievement. She has since produced a small booklet outlining a biography of Lady Augusta and insights from the letters. You can find out more about the project here. We are delighted that Lord Mostyn has agreed to the long-term deposit of the letters at Bangor to underpin future research.**



## Darlith ym Machynlleth yn Egluro Tarddiad Cloc Enwog y Dref

Rydym wedi bod yn ffodus i weithio'n agos gyda Dr Adam Coward dros y blynyddoedd diwethaf ar ddau ymarfer cwmpasu sy'n archwilio cysylltiadau hanesyddol rhwng ystadau Cymru ac Iwerddon.  Un o brif ddiddordebau Adam fu deall archifau rhyngwladol Londonderry, a’r deunydd Cymreig sy’n gysylltiedig ag ystadau Plas Machynlleth.  Mae hyn wedi rhoi cyfle i Adam archwilio cysylltiad Londonderry â’i dref enedigol, Machynlleth, gan gynnwys gwreiddiau cloc enwog y dref – sy’n dathlu 150 o flynyddoedd ar hyn o bryd – ac sy'n dal i ddominyddu'r treflun.

Ym mis Gorffennaf, gwahoddwyd Adam gan Gyngor Tref Machynlleth i draddodi darlith gyhoeddus ar gysylltiadau'r dref â Londonderry. Gallwch ddarllen mwy am ddarlith Adam yma.

## Machynlleth Lecture Explains Origins of Famous Town Clock

**Over the last few years, we’ve been fortunate to work closely with Dr Adam Coward on two scoping exercises exploring historical links between Welsh and Irish estates.  One of Adam’s key focuses has been understanding the multinational Londonderry archives, and the Welsh material associated with the Plas Machynlleth estates.  This has provided Adam with an opportunity to explore the Londonderry connection with his hometown of Machynlleth, including the origins of the famous town clock – currently celebrating its 150th birthday – which still dominates the townscape.**

**In July, Adam was invited by Machynlleth Town Council to deliver a well-attended public lecture on the town’s Londonderry links.  You can read more about Adam’s lecture here.**




## Amlygu Bywydau Gweision yn Arddangosfa Cwrt Insole

## Servants' Lives Highlighted in Insole Court Exhibition

Ym mis Mai-Mehefin, cynhaliodd Cwrt Insole yn Llandaf arddangosfa dros dro a oedd yn canolbwyntio ar fywydau a phrofiadau amrywiol unigolion a fu'n gwasanaethu yn y tŷ a'r ystâd dros y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.  Anfonwyd Bethan Scorey draw i adrodd ar yr arddangosfa.  Gallwch ddarllen myfyrdodau Bethan yma.

**In May-June Insole Court in Llandaff hosted a temporary exhibition focusing on the lives and experiences of various individuals who worked in service at the house and estate over the nineteenth and twentieth centuries. We sent Bethan Scorey along to report on the display.  You can read Bethan's reflections here.**



## Cofnod Hanesyddol yn Dangos Moroedd

## Historic Record Shows

## Cymru'n Llawn Bywyd

## the Seas of Wales Teaming with Life

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Ysgol Gwyddorau'r Eigion ym Mhrifysgol Bangor i archwilio sut y gall hanes ac archifau lywio gwell dealltwriaeth o ecoleg hanesyddol ein moroedd a'n harfordir. Mae ein hymchwil yn dangos bod y dyfroedd o amgylch Cymru ar un adeg yn llawn pysgod, a oedd yn ei dro yn cynnal ein cymunedau arfordirol ac yn rhan hynod sylweddol o fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, dros ganrifoedd. I ddysgu mwy am yr ymchwil hwn a'i oblygiadau ar gyfer dyfodol cadwraeth forol, darllenwch yr erthygl hon gan Dr Alec Moore, a gyhoeddwyd yn *The Conversation*.

**Over the last two years we've been working closely with colleagues from the School of Ocean Sciences at Bangor University to explore how history and archives can better inform understandings of the historical ecology of our seas and coastline. Our research shows that the waters around Wales once teamed with fish, which in turn sustained our coastal communities and formed a hugely significant part of the social, cultural and economic life of Wales, over centuries. To find out more about this research and its implications for the future of marine conservation read this article by Dr Alec Moore, published in *The Conversation*.**



## Gan ein Partneriaid:

## From our Partners:

***Cyllid Treftadaeth i Ddarparu Cyfleuster Newydd ar gyfer Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru***

Rydym yn falch iawn o glywed bod ein cyfeillion yn Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (swyddfeydd cofnodion Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn flaenorol) wedi sicrhau Cyllid Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i adeiladu cyfleuster archifau pwrpasol newydd yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Bydd y cyfleuster newydd, sy'n broject a gynhelir

***Heritage Funding to Provide New Facility for North East Wales Archives***

**We're absolutely delighted to learn that our friends at North East Wales Archives (previously Denbighshire and Flintshire record offices) have secured National Lottery Heritage Funding for the construction of a new purpose-built archives facility in Mold, Flintshire. A collaborative project between Denbighshire and Flintshire county councils,**

ar y cyd rhwng cynghorau sir Ddinbych a Sir y Fflint, yn darparu canolbwynt gwych i wneud gwaith ymchwil, treftadaeth a chreadigrwydd yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan roi cyfle i gymunedau ymgysylltu'n agosach â'u hanes. Darllenwch fwy am y newyddion yma.

***Colofn ar Ynys Môn yn Agor i'r Cyhoedd***

Braf oedd mynychu ail-agoriad Tŵr Marcwis yn Ynys Môn dros yr haf, ar ôl cwblhau buddsoddiadau mawr yn y safle eiconig gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a thîm ymroddedig o wirfoddolwyr. Mae'n werth dringo'r grisiau i weld y golygfeydd godidog o ben y golofn o Ynys Môn, y Fenai ac Eryri. Rydym wedi cefnogi'r project ers tro, gan gynnwys trwy Interniaeth Ymchwil Israddedig a gynhaliwyd gan Peter Crosby a lwyddodd i nodi gwybodaeth hanfodol am y gwaith adeiladu cychwynnol ar yr heneb. Llongyfarchiadau enfawr i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith! Mae rhagor o fanylion am y project a hanes y safle, yn ogystal â gwybodaeth i ymwelwyr ar gael yma.

***Dyfodol Ansicr Llancaeach Fawr ar ôl Cynnig Cyngor Caerffili i Dynnu Arian yn Ôl***

Rydym yn eithriadol o siomedig ac yn bryderus ynghylch cynnig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i dynnu cymhorthdal yn ôl oddi wrth Sefydliad y Glowyr y Coed Duon a Llancaeach Fawr. Mae Llancaeach Fawr yn atyniad hynod boblogaidd ymysg ymwelwyr, yn adnodd addysgol ac yn ganolfan ddiwylliannol sy'n gwneud cymaint i rannu a hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru, yn enwedig hanes y tŷ yn yr ail ganrif ar bymtheg. Rydym yn annog y Cyngor i ailystyried y cynnig a buddsoddi mewn treftadaeth fel ased i'r ardal, ei chymunedau a chenedlaethau'r dyfodol. Gellir gweld y dogfennau ymgynghori cyhoeddus yma.

***Project Ymchwil i Fapio Llenyddiaeth Mers yr Oesoedd Canol***

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch o fod yn cefnogi project mawr a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd sydd â'r nod o greu hanes diwylliannol cyfannol cyntaf Mers canoloesol Cymru, rhanbarth y gororau rhwng Cymru a Lloegr. Gallwch olrhain cynnydd yr ymchwil yma.

***Gwefan Newydd ar gyfer Tai Hanesyddol Cymru***

Rydym mor falch o weld bod y Gymdeithas Tai Hanesyddol wedi lansio gwefan ddwyieithog

**the new facility will provide a fantastic hub for research, heritage and creativity in north east Wales, allowing communities to engage closer with their histories. Read more about the news here.**

***Anglesey Column Opens to the Public***

**Over the summer we pleased to attend the re-opening of the Anglesey Column I Tŵr Marcwis after the completion of major investments in the iconic site by the National Heritage Lottery Fund and a dedicated team of volunteers. The spectacular views from the top of the column over Ynys Môn, Menai Straits and Eryri are well worth the climb up the stairs! We have long supported the project, including through an Undergraduate Research Internship held by Peter Crosby who succeeded in identifying critical information about the initial construction of the monument. Huge congratulations to all involved! Find out more about the project, history of the site and visitor information here.**

***Llancaiach Fawr Future Uncertain After Caerphilly Council 'Mothball' Proposal***

**We are exceptionally disappointed and concerned about Caerphilly County Borough Council's proposal to withdraw their subsidy from Llancaiach Fawr and Blackwood Miners Institute. Llancaiach Fawr is a hugely popular visitor attraction, educational resource and cultural centre which does so much to share and promote the history and culture of Wales, especially the seventeenth-century history of the house. We urge the Council the reconsider the proposal and invest in heritage as an asset for the area, its communities and future generations. The public consultation documentation can be accessed here.**

***Research Project to Map the Literature of the Medieval March***

**ISWE is pleased to be supporting a major European Research Council Funded project which aims to create the first holistic cultural history of the medieval March of Wales, the borderland region between Wales and England. You can track the progress of the research here.**

***New Website for Historic Houses Wales***

**We're so pleased to see that the Historic**

newydd i hyrwyddo'r dreftadaeth a gynrychiolir gan ei heiddo Cymreig.  Mae'r Gymdeithas Tai Hanesyddol yn cynrychioli tua chant o dai hanesyddol annibynnol yng Nghymru.  Mae'r wefan newydd yn cynnwys llawer o straeon am hanes a dyfodol y lleoedd hyn, ac mae i'w gweld yma.

***Arolwg Archeolegol yn Datgelu Gwreiddiau Canoloesol Castell Pictwn***

Yn 2023, talodd y Castle Studies Trust am yr arolwg manwl modern cyntaf o Gastell Pictwn i geisio dehongli gwreiddiau canoloesol y plasty unigryw ac enigmatig hwn yn Sir Benfro.  Gallwch ddarllen yr adroddiad hynod ddiddorol o'u canfyddiadau yma.

***Ac yn olaf … Derwen Gregynog wedi'i Henwebu fel Coeden y Flwyddyn***

Mae Coed Cadw wedi rhyddhau ei rhestr fer flynyddol ar gyfer cystadleuaeth Coeden y Flwyddyn, gydag un o dderi hynafol Gregynog wedi'i rhestru ymhlith y cystadleuwyr.  Roedd y coed hyn yn nodweddion mor bwysig o'r dyluniadau tirweddau sy'n gysylltiedig â phlastai, ac maent yn parhau i ddarparu cynefinoedd hollbwysig i fywyd gwyllt.  Gallwch bleidleisio dros Dderwen Gregynog yma.

**Houses Association has launched a new bilingual website to promote the heritage represented by its Welsh member properties. The Historic Houses Association represents about a hundred independently owned historic houses in Wales.  The new website has lots of stories about the histories and futures of these places, and can be accessed here.**

***Archaeological Survey Reveals Medieval Origins of Picton Castle***

**In 2023, the Castle Studies Trust paid for the first modern detailed survey of Picton Castle to try and decipher the medieval origins of this unique and enigmatic Pembrokeshire country house.  You can read the incredibly interesting report of their findings here.**

***And finally … Gregynog Oak Nominated for Tree of the Year***

**The Woodland Trust has released its annual shortlist for the Tree of the Year competition with one of Gregynog's ancient oaks listed amongst the contenders.  These trees were such important features of the designed landscapes associated with country houses and continue to provide really important habitats for wildlife.  You can vote for the Gregynog Oak here.**




## Mynd am Dro

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned yn bwysig iawn i'n hunaniaeth fel canolfan ymchwil.

## Out and About

**Public and community engagement is really important to our identity as a research**

Rydym yn credu'n gryf y dylai pobl a chymunedau Cymru chwarae rhan weithredol yn ein gwaith a'n gweithgareddau, gan helpu i'w siapio a chael budd ohonynt, a chredwn ei bod yn bwysig bod ein canfyddiadau'n cael eu rhannu'n eang, ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd Anna Reynolds, ein Hymchwilydd Doethurol, ei phroject ar setliadau anghyfannedd y Carneddau, gydag astudiaeth achos o Gedryn, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Dyffryn Conwy. Ym mis Awst, roedd Dr Shaun Evans yn falch iawn o dderbyn gwahoddiad gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych i drafod gwaith Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a rôl ystadau tir yn hanes a dyfodol Cymru. Ym mis Ebrill, bu Dr Mary Oldham yn trafod 'Merched Gregynog' mewn sgwrs â Sefydliad y Merched Tregynon, ac yn annerch Clwb Powysland ar ei phrofiad o wneud PhD ym Mhrifysgol Bangor. Ym mis Hydref, bydd Mary yn siarad â Sefydliad y Merched Aberhafesb a'r gymuned ar 'Ffermydd Gregynog yn Aberhafesb'. Yn Sir Gaerfyrddin, gwahoddwyd Sara Fox i siarad mewn digwyddiad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ninefwr ar 'Gerddi Cyfeillgarwch: Y Fonesig Cecil Rice a'i rhwydweithiau benywaidd'. Cyflwynodd Sara sgwrs hefyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ym mis Chwefror i nodi 200 mlynedd ers marwolaeth Syr William Paxton. Ym mis Medi, bu Dr Meinir Moncrieffe yn annerch Cymdeithas Hanes Llanrwst yn Sant Grwst ar ei hymchwil i Syr John Wynn o Wydir, ac mae hi'n edrych ymlaen at annerch Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle a Chymdeithas Llenyddiaeth Sarn dros y misoedd nesaf. Yng ngogledd ddwyrain Cymru, bydd Lizzy Walker yn siarad yn Hwb Pentredwr ar 6 ac 13 Tachwedd ar ei hymchwil i dirfeddianwyr benywaidd o Gymru, gan ddefnyddio enghreifftiau lleol; ac mae Vic Tyler-Jones yn edrych ymlaen at siarad â Chymdeithas Bwcle a'n cyfeillion yn y Grŵp Darganfod Hen Dai Cymreig ar ei ymchwil i'r 'Anheddiad sgwatwyr ar Fynydd y Drenewydd 1848-1907'.

Mae Jeff Childs wedi rhoi dros 20 o sgyrsiau drwy gydol 2024 i grwpiau hanes lleol a chymunedol ledled de Cymru, yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â'i ymchwil i ystadau, ffermydd a diwydiannau Sir Forgannwg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau i Gymdeithas Hanes Cwm Tawe, Grŵp Addysg Oedolion Merthyr Tudful, Cymdeithas Hanes Gelligaer, Grŵp Hanes Treboeth, Cymdeithas Hanes Lleol Llantrisant a'r Cylch, Cymdeithas Hanes Resolfen, Cymdeithas Hanes Dyffryn Clydach a Bryncoch, Cymdeithas Treftadaeth a Hanes

**centre. We strongly believe that the people and communities of Wales should have an active role in partaking in, helping to shape and benefitting from our work and activities, and we think it's important that our findings are shared widely, across Wales and internationally.**

**In July, our Doctoral Researcher Anna Reynolds introduced her project on the abandoned settlements of the Carneddau, with a case study of Cedryn, at the AGM of the Conwy Valley Civic Society. In August, Dr Shaun Evans was delighted to accept an invitation from the Gwrych Castle Preservation Trust to discuss the work of ISWE and role of landed estates in the history and future of Wales. In April, Dr Mary Oldham discussed 'The Women of Gregynog' in a talk to Tregynon WI and addressed the Powysland Club on her experience of undertaking a PhD at Bangor University. In October, Mary will be speaking to Aberhafesp WI and community on 'The Gregynog Farms in Aberhafesp'. In Carmarthenshire, Sara Fox was invited to speak at a National Trust event at Dinefwr on 'Gardens of Friendship: Lady Cecil Rice and her female networks'. Sara also gave a talk at the National Botanic Garden of Wales in February on the 200$^{th}$ anniversary of the death of Sir William Paxton. In September, Dr Meinir Moncrieffe addressed the Llanrwst Historical Society at St Grwst's on her research into Sir John Wynn of Gwydir, and is looking forward to addressing Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle and Cymdeithas Llenyddiaeth Sarn over the coming months. In north east Wales, Lizzy Walker will be speaking at Hwb Pentredwr on 6$^{th}$ and 13$^{th}$ November on her research into Welsh landowning women, using local examples; and Vic Tyler-Jones is looking forward to speaking to the Buckley Society and our friends at the Discovering Old Welsh Houses Group on his research into 'The squatter settlement on Ruabon Mountain 1848-1907'.**

**Across 2024 Jeff Childs has delivered over 20 talks to local history and community groups across south Wales, on a variety of subjects connected to his research into the estates, farms and industries of Glamorganshire. This includes presentations to the Swansea Valley History Society, Merthyr Tydfil Adult Education Group, Gelligaer Historical Society, Treboeth History Group, Llantrisant and District Local History Society, Cymdeithas**

Ystradgynlais a Chymdeithas Hanes Lleol y Rhath, gyda nifer o sgyrsiau ychwanegol ar y gweill cyn diwedd y flwyddyn. Ar 28 Mawrth 2025, bydd Jeff yn annerch Cymdeithas Gŵyr ar destun ei Ymchwil PhD: 'Teuluoedd Bonedd Arglwyddiaeth Gŵyr', yng Nghanolfan Plwyf Sgeti, Abertawe.

Yn gynharach eleni, cyflwynodd Bethan Scorey bapur yn y 14eg Mewnwelediadau Newydd Blynyddol i Gynhadledd Pensaernïaeth yr 16eg ac 17eg Ganrif ym Mhrydain yn y Society of Antiquaries yn Llundain, ar ei hymchwil i Gastell Sain Ffagan. Ym mis Mawrth, cyflwynodd Lizzy Walker ei phapur academaidd cyntaf yng Nghynhadledd Ôl-raddedigion Hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, gan siarad ar y thema 'Perchnogion tir a rheoli ystadau ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr: Merched Ystâd Croes Howell, Sir Ddinbych'. Ym mis Mai, bu Dr Adam Coward ac Alex Ioannou yn cynrychioli Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn y 22ain Cynhadledd Ryngwladol Tai Hanesyddol yn Maynooth, Iwerddon. Ym mis Medi, gwahoddwyd Dr Shaun Evans i siarad yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Astudiaethau Bywyd Gwerin, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, gyda sgwrs ar ei ymchwil i ddathliadau dod i oed Cymru. Mae Dr Meinir Moncrieffe, Lizzy Walker a Dr Shaun Evans yn edrych ymlaen at siarad yng Nghynhadledd Flynyddol Archif Menywod Cymru ym mis Hydref.

**Hanes Resolfen, Dyffryn Clydach and Bryncoch Historical Society, Ystradgynlais Heritage and History Society and Roath Local History Society, with several additional talks planned before the end of the year. On 28 March 2025 Jeff will address the Gower Society on the subject of his PhD Research: 'Gentry Families of the Lordship of Gower', at Sketty Parish Centre, Swansea.**

**Earlier this year, Bethan Scorey delivered a paper at the 14$^{th}$ Annual New Insights into 16$^{th}$ and 17$^{th}$ Century British Architecture Conference at the Society of Antiquaries, London, on her research into St. Fagans Castle. In March, Lizzy Walker delivered her first academic paper at the Welsh History Postgraduate Conference at Cardiff University, speaking on the theme of 'Landowners and estate management on the Wales-England Border: The Women of Croes Howell Estate, Denbighshire'. In May, Dr Adam Coward and Alex Ioannou represented ISWE at the 22$^{nd}$ Historic Houses International Conference at Maynooth, Ireland. In September, Dr Shaun Evans was invited to speak at the Annual Conference of the Society for Folklife Studies, hosted in Caernarfon, with a talk on his research into Welsh coming of age celebrations. Dr Meinir Moncrieffe, Lizzy Walker and Dr Shaun Evans are looking forward to speaking at the Women's Archive Wales Annual Conference in October.**




## Digwyddiadau i Ddod

<u>**Cynhadledd Hanesion Plastai Cymru**</u>
Dydd Sadwrn 16 Tachwedd 2024
10:20am -17:30pm

## Forthcoming Events

<u>**Welsh Country House Histories Conference**</u>
**Saturday 16$^{th}$ November 2024**
**10:20am -17:30pm**

Penpont, Sir Frycheiniog

I nodi cyhoeddi *The Great Houses of Crickhowell*, mae Cymdeithas Brycheiniog, Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a Crickhowell District Archive Centre yn falch o gyflwyno:

*Ymchwilio, Ysgrifennu a Chyflwyno Hanesion plastai Cymreig*

Cynhadledd undydd. £25 yn cynnwys cinio a lluniaeth.
Tocynnau ar werth nawr yma.

Yn cynnwys sgyrsiau gan gynnwys:

- Dr Shaun Evans – Hanesion Teuluol Uchelwyr Cymreig
- Dr Elizabeth Siberry ac Eliane Wigzell – Mewnwelediadau o *The Great Houses of Crickhowell*
- Jonathan Williams – Penpont: Hanes sy'n Datblygu
- Bethan Scorey – Sain Ffagan: Hanes Pensaernïaeth a Thirwedd
- Sara Fox - Creating *Middelton Hall: A History*
- Dr Martin Cherry – Hen Dai Cymreig: Dendrocronoleg a Darganfod
- Dr Mary Oldham - Ymchwilio i Regynog: Ystad a Chymuned
- Gerald Morgan – Tai Cymreig a'u Teuluoedd: Myfyrdodau ac Argymhellion

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

--------------------------------------------------

**Diwrnod Cymunedol Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru 2024**
Dydd Mercher 30 Hydref 2024
2.30pm-5.30pm
Ystafelloedd Cynadledda Cledwyn 3, Prif Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Bangor, Bangor LL57 2DG.

Oes gennych chi ddiddordeb yn hanes, diwylliannau a thirweddau Cymru? Ydych chi eisiau dysgu mwy am ein hymchwil i archifau, plastai ac ystadau tirfeddiannol Cymru?

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i ddiwrnod cymunedol ym Mhrifysgol Bangor i ddarganfod mwy am waith Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.

- Dewch i gwrdd ag aelodau tîm Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru

**Penpont, Breconshire**

**To mark the publication of *The Great Houses of Crickhowell*, The Brecknock Society, Institute for the Study of Welsh Estates and Crickhowell District Archive Centre are pleased to present:**

***Researching, Writing & Presenting Welsh Country House Histories***

**A one-day conference. £25 Including lunch and refreshments.**
**Tickets on sale now from here.**

**Featuring talks including:**

- **Dr Shaun Evans – A History of Welsh Gentry Family Histories**
- **Dr Elizabeth Siberry & Eliane Wigzell – Insights from *The Great Houses of Crickhowell***
- **Jonathan Williams – Penpont: An Evolving History**
- **Bethan Scorey – St Fagans: An Architectural & Landscape History**
- **Sara Fox – Creating *Middelton Hall: A History***
- **Dr Martin Cherry – Old Welsh Houses: Dendrochronology & Discovery**
- **Dr Mary Oldham – Researching Gregynog: Estate and Community**
- **Gerald Morgan – Welsh Houses & their Families: Reflections & Recommendations**

**Further information can be found here.**

------------------------------------------------

**ISWE Community Day 2024**
**Wednesday 30th October 2024**
**2.30pm-5.30pm**
**Cledwyn Conference Room 3, Main Arts Building, Bangor University, LL57 2DG.**

**Are you interested in the histories, cultures and landscapes of Wales? Do you want to find out more about our research into Welsh archives, landed estates country houses?**

**You are warmly invited to a community day at Bangor University to find out about the work of the Institute for the Study of Welsh Estates.**

- **Meet members the ISWE team**
- **Find out about the work and activities of a university research centre**

- Dysgwch am waith a gweithgareddau canolfan ymchwil prifysgol
- Trafodwch brojectau parhaus gyda'n hymchwilwyr doethurol
- Dysgwch am archifau Cymreig
- Arddangosfeydd pop-yp
- Gweithgareddau i oedolion a phlant
- Rhannwch a thrafodwch eich gwybodaeth a'ch syniadau eich hun
- Darganfyddwch sut y gallwch ymgysylltu â'n gwaith a'i gefnogi

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.
Croeso i bawb! Galwch heibio ar y diwrnod.
Edrychwn ymlaen at eich gweld!

Yn dilyn hyn ceir Darlith Flynyddol Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor 2024. Cewch ragor o wybodaeth yma.

--------------------------------------------------

**Darlith Flynyddol Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor 2024**
Dydd Mercher 30 Hydref 2024
5.30pm
Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor

*Closed for Research: The Irish Land Commission Archives and the Fall of the Anglo-Irish Aristocracy*

gan Yr Athro Terence Dooley, Cyfarwyddwr y Centre for the Study of Historic Irish Houses and Estates, Prifysgol Maynooth.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

Croeso i bawb!

--------------------------------------------------

**Y Coleg ar y Bryn: 140 Mlynedd o hanes Prifysgol Bangor**
Pontio PL2, Prifysgol Bangor
Dydd Sadwrn, 19 Hydref 2024
10am-3pm

Ers 140 o flynyddoedd, mae Prifysgol Bangor wedi bod yn rhan o ddinas Bangor. Mae'r digwyddiad hwn yn ddathliad o'r brifysgol a'r berthynas barhaus honno. Bydd y cyflwyniadau'n ymdrin â nifer o agweddau ar sefydlu'r brifysgol ac yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n bresennol drafod materion ymhellach.

Bydd y cyflwyniadau'n cynnwys:

- **Discuss ongoing projects with our doctoral researchers**
- **Learn about Welsh archives**
- **Pop-up exhibitions**
- **Activities for adults & children**
- **Share and discuss your own knowledge and ideas**
- **Find out how you can engage with & support our work**

**Further information can be found here.**
**All Welcome! Simply turn up on the day.**
**We look forward to seeing you!**

**To be followed by the Bangor University Archives and Special Collections 2024 Annual Lecture. Find out more here.**

--------------------------------------------------

**Bangor University Archives and Special Collections Annual Lecture 2024**
**Wednesday 30th October 2024**
**5.30pm**
**Main Arts Lecture Theatre, Bangor University**

***Closed for Research: The Irish Land Commission Archives and the Fall of the Anglo-Irish Aristocracy***

**by Professor Terence Dooley, Director of the Centre for the Study of Historic Irish Houses and Estates, Maynooth University.**

**Further information can be found here.**

**All welcome!**

--------------------------------------------------

**The College on the Hill: 140 Years of Bangor University History**
**Pontio PL2, Bangor University**
**Saturday 19th October 2024**
**10am-3pm**

**For 140 years, Bangor University has been located in the City of Bangor. This event is a celebration of both the university and that ongoing relationship. Talks will cover a number of aspects of the university's founding and provide opportunities for attendees to discuss issues further.**

**Talks to include:**

- **Bangor: Growth of a City before 1884**
- **Who were the University's founders?**

- Bangor: Twf y ddinas cyn 1884
- Pwy oedd sefydlwyr y brifysgol?
- Prifysgol Fictoraidd: Helynt Violet Osborne
- Creu hanes: Twf Prifysgol Bangor ers 1884

Bydd te a choffi ar gael. Bydd y sgyrsiau'n dechrau am 10am ac yn gorffen tua 3pm, a bydd egwyl amser cinio. Mae croeso i chi ymuno â ni am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.

Cofrestrwch yma.

- **A Victorian University: The Violet Osborne Affair**
- **Building history: The growth of Bangor University since 1884**

**Tea and coffee will be provided. The talks will begin at 10am and finish around 3pm, and there will be a break at lunch time. You are welcome to join us for the full day or for part of the day.**

**Register here.**



# Cefnogi ein Gwaith

Mae eich cefnogaeth ddyngarol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r hyn y gallwn ei gyflawni.

Ers i ni sefydlu, rydym wedi elwa ar gefnogaeth ac anogaeth cymaint o unigolion a sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt.  Mae'r gefnogaeth hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Yn ddiweddar, rydym wedi gallu cyflogi ymchwilwyr doethurol gwych i weithio'n rhan amser fel Swyddogion Cyswllt Ymchwil ac Ymgysylltu ar gyfer Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.  Diolch i gyfraniadau gwych Bethan a Sean yr ydym wedi gallu lansio ein gwefan newydd ac anfon y cylchlythyr ar-lein hwn – gan ein helpu i ymgysylltu fwy, i fod yn fwy gweithredol ac i fod yn fwy ystyrlon yn ein presenoldeb ledled Cymru.
Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni yn ein cenhadaeth. Byddai rhoddion mawr a bach yn

# Support our Work

**Your philanthropic support makes a real difference to what we can achieve.**

**From the time of our establishment we have benefitted from the support and encouragement of so many individuals and organisation across Wales and beyond.  This support makes a real difference to our work and ambitions for the future.**

**Recently, we have been able to employ to fantastic doctoral researchers to work part-time as Research & Engagement Associates for ISWE.  It is thanks to the fantastic contributions of Bethan and Sean that we've been able to launch our new website and send out this online newsletter – helping us to be more engaged, more active and have a more meaningful presence throughout Wales. We'd welcome you to join us in our mission. Larger and smaller donations would be greatly appreciated.  Your support is essential**

cael eu gwerthfawrogi'n fawr.  Mae eich cefnogaeth yn hanfodol i'n gwaith.

Cliciwch yma i ddysgu sut gallwch chi roi rhodd neu ddod yn Gyfaill i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.

**to our work.**

Click here **to find out how you can make a gift or become a Friend of ISWE.**

**Gwelwch ein wefan am** fwy o newyddion o'r Brifysgol**.**

**Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu unrhyw beth yr hoffech weld ei gynnwys yn rhifynnau'r dyfodol, cysylltwch ar** ISWE@bangor.ac.uk

**See our website for** more news from the University.

**If you have any comments or anything that you would like to see featured in future editions, please get in touch at** ISWE@bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY